



HEDDLU
TRAFNIDIAETH
PRYDEINIG

Adroddiad ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2023/2024



Adlewyrchu'r gorau o'n
cymunedau

Adroddiad dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (PSED) 2023/2024

Mae gan y PSED dri nod. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu

Mae rhoi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal yn golygu ystyried yr angen i:

- dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig
- diwallu anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig
- annog pobl â nodweddion gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn isel

Gellir dod o hyd i adroddiadau BTP ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ac Ethnigrwydd yma:

[BTP-Gender-Pay-Gap-Report-2023-including-Chiefs-Foreword_secure.pdf](#)

[BTP-Ethnicity-Pay-Gap-Report-2023-including-Chiefs-Foreword_secure.pdf](#)

Daw ein hamcanion o'n strategaeth Cynhwysiant ac Amrywiaeth, sy'n ymdrin â [Strategaeth Cynhwysiant ac Amrywiaeth BTP 2023-28 2023-28](#)

Mae'r cyhoeddiad hwn yn darparu cynnydd ar gyfer 2023/2024:

Creu diwylliant cynhwysol

- Mae strategaeth Cynhwysiant ac Amrywiaeth BTP yn cael ei hadolygu i sicrhau bod BTP yn dod mor gynhwysol â phosibl ac yn cyrraedd ein cymunedau amrywiol allanol
- Mae 69% o'n pobl yn teimlo bod BTP yn lle cynhwysol i weithio
- Mae 61% yn teimlo y gallant fod eu hunain gwirioneddol yn y gwaith trwy gynnal sesiynau Dewch i Siarad lle gall pobl rannu profiadau bywyd a siarad yn agored am heriau a sut y gallant oresgyn y rhain
- Cyllideb wedi'i dyrannu ar gyfer caffael meddalwedd ac offer yn ganolog i ddiwallu anghenion ein cydweithwyr niwroamrywiol ac anabl.
- Pasbortau gweithle wedi'u treialu ar gyfer cydweithwyr niwroamrywiol ac anabl i sicrhau bod ganddynt fynediad at offer a'r gallu i wneud cais am addasiadau rhesymol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. I gefnogi'r canllawiau hyn, gweithredwyd fframwaith ar gyfer gofyn am addasiadau
- Wedi cyflwyno cynhyrchion mislif rhad ac am ddim ym mhob un o safleoedd BTP ar draws y DU

- Wedi diwygio polisi cymorth Trawsrywiol ac Anneuaidd BTP i sicrhau ei fod yn glir ac yn gyson
- Wedi creu tudalen e-ddysgu yn benodol ar gyfer I&D ar MyLearn (ein platfform dysgu) i gefnogi dysgu parhaus ein pobl
- Wedi lansio cylchgrawn BTP Empower [Galluogi] (ar gael i'r cyhoedd) lle byddwn yn clywed gan ein cydweithwyr amrywiol am yr hyn y mae plismona yn ei olygu iddynt hwy ac am eu teithiau i BTP a thrwyddo.

Ymgysylltu a chynnwys ein pobl

- Wedi cyflwyno 92 o Hyrwyddwyr Cynhwysiant i hyrwyddo trafodaethau cynhwysol, darparu cymorth yn lleol ar faterion amrywiaeth a hyrwyddo ein gwerthoedd cynhwysol
- Wedi sefydlu grŵp llywio anabledd a niwroamrywiaeth gyda rhanddeiliaid allweddol, wedi'i gadeirio ar lefel Prif Gwnstabl Cynorthwyol
- Wedi adolygu hygyrchedd ein Mewnrawd ar gyfer ein pobl fel rhan o ddylunio cynnyrch newydd
- Wedi cyflwyno siarter i ddarparu llywodraethu a strwythur ar gyfer rhwydweithiau a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed mewn fforymau mewnol
- Wedi lansio 3 Rhwydwaith Staff newydd (BTPSA, BRIAN ac Anabledd)
- Trwy ein cymdeithasau cymorth amrywiol ar gyfer cyflogaion, gweithiodd BTP i ymestyn ein cyrhaeddiad y tu allan i'r sefydliad i annog pobl i riportio troseddau a digwyddiadau a meithrin perthnasoedd gwaith gwell gyda'r gymuned.
- Mae Cronfeydd Talent wedi'u datblygu a chwblhaodd 99.8% o gyflogaion Adolygiadau Datblygiad Personol (PDRs) gan alluogi unigolion i ddatblygu a chamu y tu allan i'w rolau arferol.
- Fe wnaethom ailgynllunio ein datblygiad arweinyddiaeth, gan gynnwys dyrchafiadau, yn dilyn yr argymhellion yn adolygiad Casey am arweinyddiaeth gynhwysol
- Lansiodd 'canolfan llesiant' newydd yn 2023/24 yn cynnig mwy o adnoddau, offer a digwyddiadau i gefnogi llesiant. O ystyried natur gwaith yr heddlu, rydym yn mynd ati i sicrhau bod y rhai sy'n mynychu digwyddiadau anodd yn cael eu gwahodd i gael cymorth.
- Cafodd hyfforddwyr a mentoriaid BTP eu huwchsgilio mewn niwrogynhwysiant
- Derbyniodd arweinwyr gweithredol ar Fwrdd Gweithredol y Llu awr o fewnbwn I&D bob mis i uwchsgilio ar greu diwylliant cynhwysol
- Addysg i'n pobl ar brofiad pobl o'r Dreftadaeth Ddu a phlismona, yn enwedig Windrush ac adroddiad MacPherson yn ymwneud â llofruddiaeth Stephen Lawrence

Gwella cynrychiolaeth ein gweithlu

- Y Llu Cyntaf i hysbysebu am Swyddogion Rhan Amser i annog pobl o wahanol gefndiroedd i wneud cais i BTP

- Wedi ymgorffori Tîm Gweithredu Cadarnhaol o fewn I&D i gynyddu cynrychiolaeth ein gweithlu a chefnogi ein grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ddatblygu a symud ymlaen yn y sefydliad
- Dyfarniad Hyderus o ran Anabledd – Lefel 1 Wedi'i Gyflawni
- Creu Grŵp Gweithredu Cymorth Cadarnhaol i gefnogi datblygiad cyflogeion heb gynrychiolaeth ddigonol
- Gwelwyd gostyngiad yn y bwlch cyflog cymedrig ar gyfer staff benywaidd a Du, Asiaidd a Chymysg yn yr adroddiadau bwlch cyflog
- Wedi lansio Arolygon Ymadael wedi'u e-alluogi i ddatblygu ein mewnwelediad i'r rhesymau allweddol y mae cyflogeion yn gadael y sefydliad
- Gweithio tuag at broses ffurfiol i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol gael profiad o weithio yn BTP.

Adeiladu cymunedau hyderus, ymroddedig a gwarchoddedig

- Mae mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Roedd cynnydd o 20% mewn troseddau treisgar yn erbyn menywod a merched a 10% yn fwy o droseddau rhyw wedi'u cofnodi. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu cynnydd yn nifer yr achosion o'r troseddau hyn ond bod dioddefwyr yn fwy parod i'w riportio oherwydd y negeseuon a'r ymdrechion ar draws y rhwydwaith.
- Mae Traciwr Canfyddiad y Cyhoedd ar gyfer Rhagfyr i Chwefror 2024 yn dangos bod 74% yn cytuno eu bod yn teimlo pe byddent yn riportio trosedd i BTP y byddai'n cael ei gymryd o ddifrif a chytunodd 71% fod BTP yn deg wrth ddefnyddio eu pwerau
- Cyflwyno arolwg cyhoeddus bob deufis i glywed gan ein cymunedau. Mae pob cylch arolwg yn cynhyrchu tua 3,000 o ymatebion, gan ddarparu cyfoeth o ddata ar agweddau teithwyr
- Wedi lansio profiad realiti rhithwir (VR) i helpu i fynd i'r afael â phob math o aflonyddu rhywiol
- Lansiwyd Arolwg Dioddefwyr Troseddau newydd hefyd. Mae gwaith cychwynnol i adolygu'r adborth i benderfynu a oes angen unrhyw newidiadau yn y broses i wella'r gwasanaeth i ddioddefwyr wedi dechrau.
- Lansiwyd arolwg staff rheilffyrdd ar ei newydd wedd ym mis Mawrth 2024 gyda chwestiynau newydd yn canolbwyntio ar yr hyn y mae cymuned staff y rheilffyrdd ei eisiau gan BTP a sut y gallwn eu cefnogi orau.
- Cwblhawyd adolygiad o'r Polisi Troseddau Casineb ym mis Ionawr 2024 i sicrhau bod gan y sefydliad ddull tactegol o ysgogi gwelliant yn y ffordd rydym yn rheoli troseddau casineb ac yn cefnogi dioddefwyr.
- Cwblhaodd yr adran Safonau Proffesiynol adolygiad o argymhellion adolygiad Casey i ddeall sut mae'r sefydliad yn cyd-fynd â'r argymhellion. Roedd hwn yn archwilio meysydd amrywiol megis ein hymagwedd at stopio a chwilio, PRAP, adolygiad o'r strategaeth pobl ar goll, hyfforddiant ar gyfer cynwysoldeb, cwynion, gwahaniaethu, sut rydym yn delio â chamymddwyn a chwynion ac ati.


- Yn 2023/24 roedd 218 o adroddiadau 'Codi Llais' (2022/23: 237). Arweiniodd achosion o gamymddwyn difrifol at gyfradd ddiswyddo gyson o 95% mewn gwrandawriadau yn 2023/24.
- Wedi lansio Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu BTP ac wedi hyrwyddo'r arolwg gweithlu Du Cenedlaethol ar gyfer ein cyflogeion Du
- Mae gan y Llu nifer o fyrddau craffu mewnol, gan gynnwys ar gyfer y ddalfa, stopio a chwilio a defnyddio grym, a ddygwyd wedyn o dan un ymbarél o fewn y tîm Cynhwysiant i ysgogi newid a gweithredu proses gadarn ar gyfer craffu allanol. Mae byrddau cyfreithlondeb allweddol yn craffu ar ddata ar y defnydd o bwerau plismona, ac mae anghymesuredd yn nodwedd allweddol o'r drafodaeth wrth i'r Llu ymdrechu i naill ai esbonio, neu ddiwygio, trwy Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu.
- Wedi cyhoeddi Pecyn Cymorth Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb a chanllawiau ac wedi'u hymgorffori yn nogfennaeth Rheoli Prosiectau
- Hyfforddiant Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb - 2 sesiwn y chwarter i sicrhau bod ein pobl yn deall sut i gwblhau asesiad effaith effeithiol
- Cefnogi a chodi arian ar gyfer elusennau sy'n achub bywydau, gan feithrin perthnasoedd cadarnhaol rhwng y gymuned a'r heddlu, yn ogystal ag addysgu am droseddau casineb a threisgar a chefnogi iechyd meddwl a lles.
- Mewn cydweithrediad â'r Heddlu Metropolitaidd, cefnogodd BTP gymunedau trwy'r rhaglen Kickoff@3. Mae'r fenter hon yn rhoi llwyfan i bobl ifanc wyro oddi wrth droseddoldeb ac yn cefnogi gwaith, busnesau a thalentau.
- Wedi ailgynllunio ein datblygiad arweinyddiaeth, gan gynnwys dyrchafiadau, yn dilyn yr argymhellion yn adolygiad Casey am arweinyddiaeth gynhwysol
- Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd 146,715 o lawrlwythiadau o'r ap Railway Guarding, sy'n parhau i annog a galluogi riportio. Mae BTP wedi derbyn 1,761 o negeseuon testun Railway Guardian 61016 rhwng lansiad yr ap ym mis Gorffennaf 2022 a diwedd mis Mawrth 2024.
- Datblygodd BTP lwybr newydd y tu allan i'r llys ar gyfer troseddau lefel isel ag elfen o aflonyddu rhywiol. Bydd y cwrs 'Ystyriwch' yn cyflwyno mewnbwn addysgol i droseddwyr i fynd i'r afael ag ymddygiadau amhriodol tro cyntaf nad ydynt yn cael eu hystyried yn drosedd rywiol (fel 'cellweirio' rhywioledig neu fflyrtio digroeso).
- Mesur ein tirwedd bresennol yn erbyn 15 o Ddangosyddion Hiliaeth ac amlygu cyfleoedd ar gyfer newid
- Wedi cyflwyno cardiau Z i roi cyfle i'r rhai sy'n cael eu stopio a'u chwilio roi adborth
- Wedi gwella ein dull o gofnodi stopio cerbydau Adran 163 i sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth a fyddai'n ein helpu i nodi unrhyw anghymesuredd yn y defnydd o'n bwerau.

Ein Data – o fis Mawrth 2024*Gweithlu yn ôl Rheng / Gradd*

Rheng / Gradd	Nifer y Cyflogeion	% o'r cyfanswm
Swyddog yr Heddlu	3122	59%
ACPO	6	0%
Prif Uwcharolygydd	5	0%
Uwcharolygydd	21	0%
Prif Arolygydd	55	1%
Arolygydd	180	3%
Rhingyll	521	10%
Cwnstabl	2334	44%
PCSO	196	4%
Staff yr Heddlu	1689	32%
Cyfarwyddwr	2	0%
C004	10	0%
C003	9	0%
C002	35	1%
C001	63	1%
B004	69	1%
B003	145	3%
B002	93	2%
B001	244	5%
A006	374	7%
A005	343	7%
A004	210	4%
A003	25	0%
Cyf	60	1%
Staff Asiantaeth	7	0%
Swyddog Gwirfoddol	243	5%
Prif Swyddog Gwirfoddol	1	0%
Uwcharolygydd Gwirfoddol	1	0%
Prif Arolygydd Gwirfoddol	1	0%
Arolygydd Gwirfoddol	10	0%
Rhingyll Gwirfoddol		1%
Cwnstabl Gwirfoddol	198	4%
Cyfanswm Mawr	5250	100%

Gweithlu yn ôl Rhyw

Rheng / Gradd	Nifer y Cyflogeion Benyw	% y Cyflogeion Benyw	Nifer y Cyflogeion Gwryw	% y Cyflogeion Gwryw
Swyddog yr Heddlu	715	14%	2407	46%
ACPO	1	0%	5	0%
Prif Uwcharolygydd	3	0%	2	0%
Uwcharolygydd	5	0%	16	0%
Prif Arolygydd	10	0%	45	1%
Arolygydd	43	1%	137	3%
Rhingyll	85	2%	436	8%
Cwnstabl	568	11%	1766	34%
PCSO	48	1%	148	3%
Staff yr Heddlu	940	18%	749	14%
Cyfarwyddwr	2	0%		0%
C004	6	0%	4	0%
C003	3	0%	6	0%
C002	16	0%	19	0%
C001	34	1%	29	1%
B004	36	1%	33	1%
B003	74	1%	71	1%
B002	52	1%	41	1%
B001	114	2%	130	2%
A006	222	4%	152	3%
A005	196	4%	147	3%
A004	140	3%	70	1%
A003	14	0%	11	0%
Cyf	28	1%		1%
Staff Asiantaeth	3	0%	4	0%
Swyddog Gwirfoddol	30	1%	213	4%
Prif Swyddog Gwirfoddol		0%	1	0%
Uwcharolygydd Gwirfoddol		0%	1	0%
Prif Arolygydd Gwirfoddol		0%	1	0%
Arolygydd Gwirfoddol		0%	10	0%
Rhingyll Gwirfoddol	5	0%	27	1%
Cwnstabl Gwirfoddol	25	0%	173	3%
Cyfanswm Mawr	1733	33%	3517	67%



Benyw Gwryw


Canran y Gweithlu yn ôl Rhyw

Sylwadau:

- Bellach mae gan y BTP weithlu sydd 33% yn fenywod a 67% yn ddynion. Cynyddodd cynrychiolaeth fenyw o 1% erbyn diwedd 2024. Cynyddodd cynrychiolaeth fenyw BTP, ar lefel swyddogion, o 1% yn ystod yr un cyfnod.

Gweithlu yn ôl Ethnigrwydd

Rheng / Gradd	Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	Du neu Ddu Prydeinig	Cymysg	Heb ei Ddatgan	Gwyn
Swyddog yr Heddlu	161	76	93	110	2682
ACPO					6
Prif Uwcharolygydd					5
Uwcharolygydd		1	2		18
Prif Arolygydd	2	1	1	3	48
Arolygydd	12	2	4	8	154
Rhingyll	23	9	18	28	443
Cwnstabl	124	63	68	71	2008
PCSO	24	2	7	5	158
Staff yr Heddlu	225	122	63	39	1240
Cyfarwyddwr					2
C004	1	1			8
C003	1				8
C002	5	2	2	2	24
C001	9	6	3	1	44
B004	4	3	4	3	55
B003	19	11	5	4	106
B002	16	4	3		70
B001		11	5	6	190
A006	46	22	13	4	289
A005	56	31	18	9	229
A004		22	6	8	142
A003	1	7	1	2	14
Cyf	3	2	3		52
Staff Asiantaeth					7
Swyddog Gwirfoddol	19	3	11	9	201
Prif Swyddog Gwirfoddol					1
Uwcharolygydd Gwirfoddol					1
Prif Arolygydd Gwirfoddol					1
Arolygydd Gwirfoddol		1			9
Rhingyll Gwirfoddol	2		2	1	27
Cwnstabl Gwirfoddol	17	2	9	8	162
Cyfanswm Mawr	429	203	174	163	4281



Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig Du neu Ddu Prydeinig Cymysg Heb ei Ddatgan Gwyn


Canran y gweithlu yn ôl Ethnigrwydd

Sylwadau:

Ni fu unrhyw newid o ran cynrychiolaeth lleiafrifoedd Ethnig ar lefel uwch (Prif Gwnstabl hyd at Uwcharolygydd a Staff Heddlu cyfatebol). Fe fu cynnydd mewn cynrychiolaeth lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer staff yr Heddlu (+28) a gostyngiad yng nghynrychiolaeth Swyddogion yr Heddlu (-16).

Gweithlu yn ôl Oedran

Rheng / Gradd	18 to 29	30 i 39	40 i 49	50 i 59	Dros 60
Swyddog yr Heddlu	548	1100	833	565	76
ACPO				6	
Prif Uwcharolygydd		1	1	3	
Uwcharolygydd		3	7	11	
Prif Arolygydd		10	30	12	3
Arolygydd	1	35	89	51	4
Rhingyll	28	210	174	96	13
Cwnstabl	519	841	532	386	56
PCSO	87	37	31	27	14
Staff yr Heddlu	286	445	353	399	206
Cyfarwyddwr		1		1	
C004		3	2	5	
C003		3	3	2	1
C002		7	13	13	2
C001	4	17	22	19	1
B004	4	29	15	19	2
B003	12	36	47	36	14
B002	15		25	12	9
B001	39	75	59	47	24
A006	80		65	82	48
A005	90	89	61	71	
A004	29	40	28	70	43
A003		2	9	8	6
Cyf	13	11	4	10	22
Staff Asiantaeth		1		4	2
Swyddog Gwirfoddol	82	76	44	33	8
Prif Swyddog Gwirfoddol		1			
		1			
Prif Arolygydd Gwirfoddol			1		
Arolygydd Gwirfoddol	3	4		2	1
Rhingyll Gwirfoddol	14	6	6	4	2
Cwnstabl Gwirfoddol	65	64	37	27	5
Cyfanswm Mawr	1003	1658	1261	1024	304




18 i 29	30 i 39	40 i 49	50 i 59	Dros 60
---------	---------	---------	---------	---------

Gweithlu yn ôl Oedran


Sylwadau:

- Dim ond ychydig o symud a fu ym mhroffil oedran y gweithlu dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gweithlu yn ôl Anabledd*Sylwadau:*

- Mae canran uchel o weithlu BTP lle nad yw'n hysbys a oes ganddynt anabledd neu nodyn (cynyddodd hyn 2% o gymharu â 2023).
- Fe fu gostyngiad o 2% yn nifer y bobl sydd wedi datgan anabledd yn BTP o gymharu â'r llynedd.

Gweithlu yn ôl Rhywioldeb



- Arywiol
- Deurywiol
- Hoyw/Lesbiadd
- Heterorywiol
- Panrywiol
- Gwell gennyf beidio â dweud
- Gwell gennyf hunan-ddisgrifio (gwag)

Sylwadau:

- Cynyddodd cyfraddau diffyg datgan ar gyfer rhywioldeb 1% yn 2024 gyda 62% o ddata yn cael eu gadael yn wag
- Nid yw gweddill y data rhywioldeb ar gyfer gweithlu BTPs wedi newid rhwng 2023 a 2024.

Gweithlu yn ôl Crefydd

Bwdhaeth	1%
Cristnogaeth - gan gynnwys CoE, Catholig, Protestannaidd a phob enwad arall	31%
Hindŵaeth	1%
Islam	4%
Iddewiaeth	0%
Dim Crefydd	34%
Arall	2%
Paganiaeth	0%
Gwell gennyf beidio â dweud	7%
Siciaeth	1%
Ysbrydegaeth	0%
Anhysbys	18%

Sylwadau:

- Fe fu cynnydd o 1% mewn datganiadau Bwdhaeth, Islam, Dim Crefydd a Gwell gennyf beidio â dweud
- Fe fu gostyngiad o 1% mewn datganiadau anhysbys ar gyfer crefydd eleni



HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG